

y Gaer Interpretation Project for Powys CC	
English to Welsh translation request No 10	
English	Cymraeg
Int184	DL30
Richard Booth; King of Hay Alex Williams, oil on canvass	Richard Booth; Brenin y Gelli Alex Williams, olew ar gynfas
The self-proclaimed 'King of Hay', Richard Booth (b. 1938), opened his first second-hand bookshop in the town in the 1960s. Over several decades his dynamic book dealing, combined with renowned publicity stunts, turned his 'Kingdom of Hay' into a world- famous 'town of books'. He lived for some time in Hay Castle.(52)	Agorodd Richard Booth (g. 1938), a gyhoeddodd ei hun yn frenin y Gelli, ei siop lyfrau ail-law gyntaf yn y dref yn y 1960au. Dros nifer o ddegawdau, trodd ei ffordd ddeinamig o ymdrin â llyfrau, ynghyd â sbloetiau cyhoeddusrwydd enwog, ei 'Deyrnas y Gelli' yn 'dref lyfrau' fyd-enwog. Roedd yn byw yng Nghastell y Gelli am beth amser.(52)
Int 185	DL 8 / 9
Bwa Maen John Piper, watercolour	Bwa Maen John Piper, dyfrlliw
Touches of vivid colour and gleaming highlights bring Piper's trademark drama to this sketch of Bwa Maen, a spectacular rock formation on the river at Pontneddfechan. Following in the footsteps of earlier artists, John Piper (1903-1992) toured the picturesque sites of south Wales in 1942, while on leave from his role as a War Artist.(55)	Daw mymryn o liw llachar a goleubwyntiau gloywon â drama nodweddiadol Piper i'r braslun hwn o Fwa Maen, ffurfiant creigiau hynod ar yr afon ym Mhontneddfechan. Yng nghynffon arlunwyr cynharach, teithiodd John Piper (1903-1992) i safleoedd hardd de Cymru ym 1942 pan oedd ar wyliau o'i swydd fel Arlunydd Rhyfel.(55)
Int 186	DL 8 / 9
Brecon Bridge with castle beyond Paul Sandby Munn, watercolour	Pont Brycheiniog a'r castell y tu draw Paul Sandby Munn, dyfrlliw
Paul Sandby Munn painted this view of the bridge over the river Honddu during a painting tour through Wales with his friend John Sell Cotman in 1802. In the foreground is the river Usk and on the left the ruins of the Norman castle. Through the arches are the wheel of the Watergate Mill and the Castle Bridge.(58)	Paentiodd Paul Sandby Munn yr olygfa hon o'r bont uwchben afon Honddu yn ystod taith baentio drwy Gymru gyda'i gyfaill John Sell Cotman ym 1802. Ceir afon Wysg yn y blaendir ac adfeilion y castell Normanaidd ar y chwith. Trwy'r bwâu, ceir olwyn Melin Watergate a Phont y Castell.(58)

Int 187		DL 1 / 2	
<p>Colonel Lloyd Vaughan Watkins John Evan Thomas , marble bust</p>		<p>Cyrnol Lloyd Vaughan Watkins John Evan Thomas, penddelw farmor</p>	
<p>Between 1832 and 1865 Colonel Watkins was in and out of Parliament as the Liberal MP for the Borough of Brecon. He built the grand mansion, Penoyre, not far from Brecon which cost so much that he finally died in poverty. He commissioned John Evan Thomas to create his family's memorials in Brecon Cathedral.(54)</p>		<p>Rhwng 1832 a 1865, roedd Cyrnol Watkins i yn ôl ac ymlaen i'r Senedd fel yr AS Rhyddfrydol dros Fwrdeistref Aberhonddu. Adeiladodd y plasty mawreddog, Penoyre, nepell o Aberhonddu a gostiodd gymaint y bu iddo farw o dlodi yn y pen draw. Comisiynodd John Evan Thomas i greu cofebion ei deulu yn Eglwys Gadeiriol Aberhonddu.(54)</p>	
Int 188		DL 1 / 2	
<p>Rev. Thomas Watkins John Evan Thomas, marble bust</p>		<p>Y Parch. Thomas Watkins John Evan Thomas, penddelw farmor</p>	
<p>Rev. Thomas Watkins (1761-1829), wrote books on his youthful travels in Europe. He became a Fellow of the Royal Society and a Fellow of the Society of Antiquaries. He was rector of Llandyfaelog, while living at Penoyre, the mansion his father built. This bust was commissioned by his son, Major John Lloyd Watkins.(53)</p>		<p>Ysgrifennodd y Parch. Thomas Watkins (1761-1829) lyfrau ar ei deithiau i Ewrop pan oedd yn ifanc. Daeth yn Gymrawd y Gymdeithas Frenhinol ac yn Gymrawd Cymdeithas yr Hynafiaethwyr. Roedd yn rheithor Llandyfaelog pan oedd yn byw yn Penoyre, y plasty a adeiladodd ei dad. Comisiynwyd y benddelw hon gan ei fab, Uwchgaptan John Lloyd Watkins.(53)</p>	
Int 189		DL 1 / 2	
<p>Penoyre Watkins John Evan Thomas, marble bust</p>		<p>Penoyre Watkins John Evan Thomas, penddelw farmor</p>	
<p>Penoyre Watkins (1721-1791) was the grandfather of John Lloyd Watkins who commissioned this bust in around 1830 from the Brecon sculptor, John Evan Thomas. He was a successful lawyer, founding the family fortune, with estates in Carmarthenshire and Breconshire. John Lloyd Watkins named the mansion he built outside Brecon after his grandfather. (52)</p>		<p>Penoyre Watkins (1721-1791) oedd taid John Lloyd Watkins a gomisiynodd y benddelw hon oddeutu 1830 gan y cerflunydd o Aberhonddu, John Evan Thomas. Roedd yn gyfreithiwr llwyddiannus a sefydlodd gyfoeth y teulu gydag ystadau yn Sir Gaerfyrddin a Sir Frycheiniog. Enwodd John Lloyd Watkins y plasty a adeiladodd y tu allan i Aberhonddu ar ôl ei daid. (52)</p>	

Int 190		DL 1 / 2	
John Evan Thomas William Meredyth Thomas, plaster		John Evan Thomas William Meredyth Thomas, plastr	
William Meredyth Thomas (1819-1877) of Brecon followed his elder brother, John Evan Thomas (1810-1873), as apprentice in the London studio of the celebrated sculptor, Sir Francis Leggatt Chantrey. He assisted his brother in his London studio all his life. This bust of his brother was shown in the Royal Academy in 1848.(52)		Dilynodd William Meredyth Thomas (1819-1877) o Aberhonddu ei frawd hynaf, John Evan Thomas (1810-1873), fel prentis yn stiwdio Llundain y cerflunydd enwog, Syr Francis Leggatt Chantrey. Cynorthwyodd ei frawd yn ei stiwdio yn Llundain drwy gydol ei oes. Dangoswyd y benddelw hon o'i frawd yn yr Academi Frenhinol ym 1848.(52)	
Int 191		DL 1 / 2	
Launcelot Morgan, Esq John Evan Thomas, marble bust		Launcelot Morgan, Ysw John Evan Thomas, penddelw farmor	
Lancelot Morgan (died 1839) was an attorney at law, alderman, bailiff, coroner and Returning Officer for Brecon and lived near Lion Street in Brecon. The marble bust of Lancelot Morgan is by John Evan Thomas of Brecon and was exhibited at the Royal Academy Exhibition in London in 1838.(49)		Roedd Lancelot Morgan (bu farw 1839) yn dwrnai yn y gyfraith, yn henadur, yn feili, yn grwner a Swyddog Canlyniadau ar gyfer Aberhonddu. Roedd yn byw ger Heol y Llew yn Aberhonddu. John Evan Thomas wnaeth y benddelw farmor o Lancelot Morgan a arddangoswyd yn Arddangosfa'r Academi Frenhinol yn Llundain ym 1838.(49)	
INT 192		DL3	
Boadicea and her daughters John Thomas, electrotype		Buddug a'i merched John Thomas, electroteip	
Queen Boadicea, her arm uplifted in defiance, calls on her Iceni warriors to defeat the Roman invaders. She tramples a Roman shield while her daughters cower at her side. The English sculptor John Thomas also made many figures for the new Houses of Parliament. <i>Boadicea</i> was exhibited at the Great London Exposition of 1862.(54)		Gan godi ei braich mewn herfeiddiwch, mae Brenhines Buddug yn galw ar ei rhyfelwyr o Iceni i drechu'r goresgynwyr Rhufeinig. Mae'n sathru dros darian Rufeinig wrth i'w merched gycydu wrth ei hochr. Gwnaeth y cerflunydd o Loegr, John Thomas, lawer o ffigyrau ar gyfer y Senedd newydd hefyd. Arddangoswyd <i>Buddug</i> yn Arddangosfa Fawr Llundain ym 1862.(54)	
Int 193		DL3	
Death of Tewdrig John Evan Thomas and William Meredyth Thomas, bronze electrotype		Marwolaeth Tewdrig John Evan Thomas a William Meredyth Thomas, electroteip efydd	

<p>Electrotype statue by the Brecon brothers, John Evan and Meredyth Thomas, which was shown in the Great Exhibition in 1851. A plaster version won the sculpture prize at the 1848 Abergavenny Eisteddfod. Here the Christian Welsh king Tewdrig, having defeated the pagan Saxons, lies dying in the arms of his daughter while his harpist plays. (55)</p>	<p>Cerflun electroteip gan y brodyr o Aberhonddu, John Evan a Meredyth Thomas, a ddangoswyd yn yr Arddangosfa Fawr ym 1851. Enillodd fersiwn plastr y wobwr gerflun yn Eisteddfod y Fenni ym 1848. Yma, gwelir Tewdrig, brenin Cristnogol Cymru yn gorwedd yn farw ym mreichiau ei ferch ar ôl trechu'r Sacsoniaid paganaidd, ac mae rhywun yn canu'r delyn. (55)</p>
<p>Submitted by: WG</p>	<p>Date: 29/08/2019</p>
<p>Completed by:</p>	<p>Date: .././2019</p>